# Rôl Interniaeth: Prosiect Paratoi

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl Swydd:** Rôl Interniaeth: Prosiect Paratoi

**Yn Adrodd i'r:** Swyddog Prosiect Paratoi

**Lleoliad:** Gweithio ystwyth gartref neu yn y swyddfa Plant yng Nghymru.

**Oriau Gwaith:** 7 - 14 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **9am ar 22 Tachwedd 2023.**

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

I arbed costau, ni allwn gydnabod eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch eich hysbysu trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni erbyn **6 Rhagfyr 2023**.

# Rôl Interniaeth: Prosiect Paratoi

| | |
|---|---|
| **Pwrpas y rôl** | Nod y Prosiect Paratoi yw grymuso pobl ifanc drwy ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am eu hawliau a'u hawliadau wrth gynllunio i adael gofal.<br>Agwedd allweddol ar y prosiect yw creu adnoddau sy'n canolbwyntio ar adeiladu gallu ariannol pobl ifanc, ynghyd â chyflwyno gweithdai cysylltiedig i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.<br><br>Gellir gweld yr adnoddau sydd wedi'u dylunio o fewn y prosiect hyd yn hyn yma: https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/prosiect_paratoi/<br><br>Bydd yr interniaeth hon yn eich galluogi i gyfrannu tuag at gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i bontio'n ddiogel o ofal a chyflawni sefydlogrwydd tai, gan leihau'r risg o ddigartrefedd.<br>Bydd eich gwaith yn grymuso pobl ifanc drwy ehangu eu gwybodaeth am eu hawliau a'u hawliadau wrth gynllunio i adael gofal. |
| **Grŵp oedran** | Rhwng 18 a 22 |
| **Meini prawf:** | • Profiad personol o ofal<br>• Ymwybyddiaeth o'r Prosiect Paratoi<br>• Am ymgysylltu â Voices from Care, Plant yng Nghymru neu sefydliadau tebyg<br>• Hyderus gyda phecynnau TG |
| **Cyfleoedd yr Interniaeth** | Bydd yr intern yn cael y cyfle i ehangu meysydd o'r prosiect sy'n cyd-fynd â'i ddiddordebau a'i ddyheadau. Gall y rôl fod yn hyblyg i gefnogi eich datblygiad ochr yn ochr â'r prosiect, er enghraifft<br><br>• Cefnogi'r Swyddog Datblygu i gynllunio a hwyluso sesiynau gwybodaeth i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar amrywiaeth o bynciau<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau gyda ac ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w cefnogi i bontio'n ddiogel o ofal |
| | Bydd y rôl yn gyfuniad o leoliad o bell ac yn y swyddfa, yn swyddfa Plant yng Nghymru yng Nghaerdydd.<br>Bydd disgwyl i'r intern ymrwymo i weithio rhwng 7 ac 14 awr yr wythnos, bydd yn cael ei dalu am ei amser ar gyfradd cyflog byw y DU a thelir am gostau teithio.<br><br>Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: sheree.kerton-jones@childreninwales.org.uk |

Mae Plant yng Nghymru yn sefydliad cynhwysol ac felly rydym yn croesawu'n gadarnhaol blant a phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd, diwylliannau a chymunedau. Caiff bob person ifanc ei drin yn deg drwy gydol eich profiad gyda ni a chaiff cefnogaeth ei darparu lle bynnag y bo'n bosibl i sicrhau y gallwch gyfrannu'n weithredol ac yn gadarnhaol.